



**Prifysgol Cymru  
University of Wales  
BANGOR**

*GORFFENNAF 8 1988*

**CYNULLIAD Y BRIFYSGOL**

*JULY 8 1988*

**CONGREGATION OF THE UNIVERSITY**

*10.15am*



*Dirprwy-Ganghellor Gweithredol/Acting Pro-Chancellor*  
**Dr. Emyr Wyn Jones, OBE, MD, Hon LLD, FRCP, FSA, DPH**  
**Is-Lywydd y Coleg/Vice-President of the College**

*Prifathro y Coleg/Principal of the College*  
*Dirprwy-Is-Ganghellor y Brifysgol/Pro-Vice-Chancellor of the University*  
**Yr Athro/Professor Eric Sunderland, MA, PhD, FIBiol**

*Warden Urdd y Graddedigion/Warden of the Guild of Graduates*  
**Mr. Trefor M. Owen, MA**

*Cyflwynydd/Presenter*  
**Yr Athro/Professor Bedwyr Lewis Jones, MA**

*Darllenir y Proclamsiwn gan/Proclamation read by*  
**Siân Esmor Gruffydd, BA**

*Organydd/Organist*  
**Mr Timothy Rishton, BA, MusM, ARCO**

## TREFN Y GWEITHGAREDDAU

Yn ystod yr ugain munud cyn i'r Seremoni Raddio ddechrau ceir datganiad ar yr organ pan genir y rhaglen ganlynol:

Johann Ernst

*Consierto yn C fwyaf*

Dietrich Buxtehude

*Ffiwg yn C fwyaf*

Johann Sebastian Bach

*Preliwid Corâl ar "Wir glauben all' an einen Gott"*

Felix Mendelssohn

*Sonata 2 yn C leiaf, symudiad 1af*

Bydd y Seremoni Raddio yn dechrau pan ddaw gorymdaith y staff academaidd a swyddogion y Coleg a'r Brifysgol i mewn i Neuadd Prichard-Jones a gorymdeithio i lawr yr eil ganol. Bydd y gynulleidfa yn y Neuadd yn sefyll pan ddechreu'r organ ganu'r orymdaith:

John Stanley

*'Voluntary' Utgorn, op.5 rhif 1*

Arweinir yr orymdaith gan y Prif Swyddog gyda'r ddau Swyddog Cynorthwyol yn arwain cynrychiolwyr staff academaidd y Coleg. Bydd y Swyddogion Cynorthwyol yn cario'r gwiall a roddwyd yn ddiweddar i'r Coleg gan yr Arglwydd Kenyon a wasanaethodd y Coleg fel Llywydd am un mlynedd ar bymtheg ar hugain. Ar y wialen eboni ceir tarian fechan ac arni arfbais y Coleg ac arfbais teulu Kenyon.

Bydd ail ran yr orymdaith lawn, a arweinir unwaith yn rhagor gan y Swyddogion Cynorthwyol, yn cynnwys yr aelodau hynny o'r staff academaidd a fydd yn cyflwyno'r rhai a fydd yn graddio. Bydd gan bob Adran ei Gyflwynydd ei hun (fel arfer Pennaeth yr Adran) a bydd ef neu hi yn galw enw pob un a fydd yn graddio o'r Adran honno. Fel y gelwir yr enw bydd y sawl a fydd yn graddio yn cerdded i ganol y llwyfan i dderbyn y radd briodol gan Brifysgol Cymru. Pan fo myfyrwyr yn graddio mewn dau bwnc cyflawnir dyletswyddau'r Cyflwynydd gan Ddeon y Gyfadran yn hytrach na Phennaeth yr Adran. Swyddog Cynorthwyol a fydd yn arwain y drydedd a rhan olaf yr orymdaith gan gario Brysgyll y Coleg sef arwydd o awdurdod y Coleg fel corff. Y mae cynllun y Brysgyll yn adlewyrchu agweddau ar hanes y Coleg: gwnaethpwyd pen y brysgyll o lechen Bethesda ac y mae'n symbol o haelioni'r chwarelwyr hynny yn nechrau wythdegau'r ganrif ddiwethaf a gyfrannodd o'u cyflog wythnosol er mwyn sefydlu'r Coleg. Ail-adroddir y thema hon ar ffon y brysgyll lle

## ORDER OF PROCEEDINGS

During the twenty minutes before the Degree Ceremony begins, there will be an organ recital with the following music programme:

Johann Ernst

*Concerto in C major*

Dietrich Buxtehude

*Fugue in C major*

Johann Sebastian Bach

*Chorale Prelude on "Wir glauben all' an einen Gott"*

Felix Mendelssohn

*Sonata 2 in C minor, first movement*

The Degree Ceremony will commence when the procession of academic staff and officers of the College and University enter the Prichard-Jones Hall and proceed along the central aisle to the stage. The audience in the Hall will stand as the organ begins to play the following processional music:

John Stanley

*Trumpet Voluntary, op.5 no.1*

The procession will be led by the Chief Marshal followed by two Assistant Marshals leading representatives of the academic staff of the College. The staves carried by the Assistant Marshals are the recent gift of the fifth Lord Kenyon, who in 1981 completed thirty-six years of service as President of the College. Supported by the ebony staff is a shield bearing the College Coat of Arms and that of the Kenyon family.

The second part of the full procession, also led by two Assistant Marshals, comprises those members of the academic staff who will be introducing the graduands. Each Department has its own Introducer (normally the Head of the Department) and he or she announces the name of each graduand from that Department. When the name is called out, the graduand walks to the centre of the stage to receive the appropriate degree of the University of Wales. In the case of students who have graduated in two subjects, the role of the Introducer is normally taken by the Dean of the Faculty rather than the Head of Department.

The third and final part of the procession is led by an Assistant Marshal who is carrying the College Mace, which is the sign of the corporate authority of the College. The Mace has a design representative of aspects of the College's history: the mace-head is made of Bethesda slate and symbolises the generosity of the local slate-quarrymen who in the early 1880s donated part of their weekly wages to fund the establishment of the College. This theme is repeated on the mace-staff where the

Hanner ffordd drwy'r seremoni bydd egwyl fer ac yn ystod hon ceir datganiad ar yr organ o'r isod

*Consierto yn A leiaf,*

*trefnwyd i'r organ gan J S Bach*

**Antonio Vivaldi**

Wedi'r datganiad cyflwynir y gweddill a fydd yn graddio.

Unwaith y derbyniwyd yr holl rai a fydd yn graddio ac sy'n bresennol i'w graddau, bydd y Prif Gyflwynydd yn argymhell i'r Dirprwy-Is-Ganghellor dderbyn i'w graddau y rhai hynny nad ydynt yn gallu bod yn y seremoni ac a restrir '*in absentia*' yn y rhaglen gan ddweud:

*Anrhydeddus Is-Ganghellor, cymeradwyaf iti dderbyn yn eu habsenoldeb y myfyrwyr hynny a enwyd yn rhannau priodol y Rhaglen i'w graddau a holl freiniau'r graddau hyn.*

Yna bydd y Dirprwy-Is-Ganghellor yn derbyn y myfyrwyr '*in absentia*' i'w graddau trwy ddweud:

*Trwy awdurdod y Brifysgol ymddiriedwyd imi, derbyniaf y rhai a nodwyd yn eu habsenoldeb i'w graddau ac i holl freiniau y graddau hyn.*

Bydd y Seremoni yn dod i ben gyda'r cyfarchiad isod, yn gyntaf yn Gymraeg ac yna yn Saesneg, gan Warden Urdd y Graddedigion:

*Yng ngwydd aelodau Prifysgol Cymru, ac mewn cynulleidfa awdurdodedig ganddi, yr ydych chi, trwy gyfranogi o ddysg y Brifysgol, wedi teilyngu graddau yn unol â statudau ac ordeiniadau'r Brifysgol.*

*Gan hynny, fe'ch croesewir i aelodaeth gyflawn Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, a dymunir i chi nerth a hir ddyddiau i fwynhau breiniau'r Urdd a'r Brifysgol ac i wynebu'n gyfrifol y dyletswyddau hynny sydd yn rhan o bob braint.*

Yna bydd y rhai ar y llwyfan a'r gynulleidfa yn sefyll, ac i gerddoriaeth yr orymdaith bydd y rhai ar y llwyfan yn gadael y Neuadd gyda'r graddedigion yn eu dilyn.

Wrth i'r gynulleidfa adael y Neuadd ceir datganiad ar yr organ:

*Prelwd yn E<sup>b</sup> fwyaf*

**Johann Sebastian Bach**

Cyflwynir y rhai a enwir yn eu grwpiau priodol yn y Rhaglen i dderbyn eu graddau yn eu habsen.

Those named in the appropriate groups in the Programme will be presented for their degrees '*in absentia*'.

Bydd Warden Urdd y Graddedigion yn cyfarch y graddedigion.

The Warden of the Guild of Graduates will greet the graduates.

Y Prifathro      The Principal

Yr Orymdaith yn gadael y Neuadd

Processional Exit

*'Voluntary' Utgorn, op.5 rhif 1*

*Trumpet Voluntary, op.5 no.1*

John Stanley

Datganiad : Recital

*Prelwd yn E<sup>b</sup> fwyaf*

*Prelude in E<sup>b</sup> major*

J.S. Bach

Mae'r Coleg yn cydnabod yn ddiolchgar gyfraniad hael Ede & Ravenscroft Ltd., Robemakers i Brifysgol Cymru tuag at gost cynhyrchu'r rhaglen hon.

The College gratefully acknowledges the generous contribution which Ede and Ravenscroft Ltd., Robemakers to the University of Wales, made towards the cost of producing this programme.

Cysodwyd gan Stiwdio Mei  
Typeset by Stiwdio Mei

Argraffwyd gan yr Uned Argraffu, CPGC  
Printed by the Central Print Unit, UCNW

Gwasanaeth Technegol, CPGC  
Technical Services, UCNW

Trefnwyd y blodau gan *Pastelle*  
Floral arrangements by *Pastelle*